

Camddefnyddio Sylweddau Adroddiad Blynyddol 2019–2020

Atodiad 1

Data Triniaeth: Camddefnyddio
Sylweddau yng Nghymru 2019–20

Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru 2019-20

Cynnwys

1 Cyflwyniad	3
2 Cefndir	3
3 Ansawdd y Data	3
4 Crynodeb o'r Canlyniadau	5
4.1 Cymharu Ardaloedd	5
4.2 Atgyfeiriadau	5
4.3 Asesiadau	5
4.4 Triniaethau	6
4.5 Amseroedd Aros	6
4.6 Proffiliau Canlyniadau Triniaeth	6
4.7 Rhesymau dros Gau	6
4.8 Dangosyddion Perfformiad Allweddol	6
5 Cymharu ardaloedd	8
6 Atgyfeiriadau	13
Eithriadau atgyfeirio ar gyfer dadansoddiad o brif sylweddau problematig	21
7 Asesiadau	28

8 Triniaethau	40
9 Amseroedd Aros.....	50
10 Proffiliau Canlyniad Triniaeth (TOPs).....	52
11 Cau Achosion.....	62
12 Crynodeb o Berfformiad	65
Atodiad A: Crynodeb o Ffactorau Allweddol.....	73
Atodiad B: Rhestr o Grwpiau Ffynhonnell Atgyfeirio	75
Atodiad C: Diffiniadau.....	76

Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru 2019-20

1 Cyflwyniad

1.1 Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae'n cynnwys ystadegau o Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (WNDSM) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

1.2 Dylid darllen yr adroddiad ar y cyd â'r ddogfen 'Proffil Blyneddol Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru 2019-20'. Bydd y ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau sydd ar gael ar hyn o bryd o ffynonellau a gyhoeddir fel mater o drefn yng Nghymru i gefnogi ac ychwanegu at y wybodaeth a gafwyd drwy WNDSM.

2 Cefndir

2.1 Goruchwylir y gwaith cyffredinol o reoli'r system, gan gynnwys cyngor ar welliannau i'r gronfa ddata, materion perfformiad cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r data a gwaith o ddadansoddi data arall a gesglir fel mater o drefn gan Fwrdd Gwybodaeth a Dadansoddi Data Llywodraeth Cymru (DIAB).

2.2 Mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau yng Nghymru, sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru drwy'r Byrddau Cynllunio Ardal, gydymffurfio â gofynion adrodd y gronfa ddata. Cyhoeddwyd canllawiau cynhwysfawr sy'n cynnwys y set ddata gyffredin a'r canllawiau diffiniol gyntaf ar 1 Mawrth 2006 ac fe'i diwygiwyd yn rheolaidd.

2.3 Gwybodaeth o'r gronfa ddata yw'r ffynhonnell swyddogol o ddata wedi'i ddilysu ar gyfer darparwyr gwasanaethau triniaeth a Byrddau Cynllunio Ardal er mwyn monitro ac adrodd ar berfformiad yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol cenedlaethol mewn perthynas ag amseroedd aros a chyfraddau ymgysylltu. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol hyn wedi bodoli ers 2006, ond cawsant eu hadnewyddu ym mis Tachwedd 2017 i'w gweithredu ar unwaith.

2.4 Ym mis Ebrill 2009 mabwysiadodd Llywodraeth Cymru adnodd y Proffil Canlyniadau Triniaeth (TOP). Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am yr adnodd yn [Atodiad A](#).

2.5 Yn 2013-14, cynhaliwyd adolygiad o'r set ddata gyffredol yn cynnwys WNDSM. Diben adolygiad ac ailddatblygiad y Set Ddata Camddefnyddio Sylweddau oedd sicrhau bod y data a gyflwynwyd i'r gronfa ddata genedlaethol yn adlewyrchiad cywir o'r modd y darperir Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau. Un o ofynion arwyddocaol y Set Ddata Camddefnyddio Sylweddau newydd oedd nodi nifer o ddigwyddiadau sy'n digwydd yn ystod Taith Cleient, mae hyn yn cynnwys Atgyfeiriad, Asesiad, Dulliau Triniaeth lluosog, Proffiliau Canlyniadau Triniaeth lluosog (TOPS) a Rhyddhau er mwyn gallu dadansoddi'r data yn well yn y dyfodol.

3 Ansawdd y Data

3.1 Mae Tîm Rhanbarthol Ymgynghorol Camddefnyddio Sylweddau (SMARTs) Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal a darparwyr gwasanaethau triniaeth i wella ansawdd data. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth edrych ar dueddiadau gan nad oedd nifer o ddarparwyr gwasanaethau triniaeth wedi cyflwyno'r holl ddata ar gyfer y meysydd perthnasol erbyn y dyddiad rhewi, sef 21 Awst 2020. O ganlyniad i atal y broses o gyflwyno data, ni chafodd y data ei rewi tan y dyddiad hwn er mwyn sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn cael digon o amser i gyflwyno'u data. Cafodd y broses o gyflwyno data ei hatal gan Lywodraeth Cymru o 9 Ebrill 2020 tan 24 Mehefin 2020, arweiniodd hyn at oedi cyn derbyn data Mawrth 2020 tan fis Mehefin 2020.

3.2 Rhestrir y materion ansawdd data sy'n effeithio ar yr adroddiad hwn isod:

- Bydd rhywfaint o'r data demograffig yn anghywir gan fod rhai cleientiaid yn amharod neu'n methu â darparu ymatebion cywir i gwestiynau. Bydd hyn bob amser yn wir am system sy'n dibynnu'n bennaf ar hunanadrodd.
- Mae rhai darparwyr gwasanaethau triniaeth yn methu â chau achosion pan fydd cleient yn cael ei drosglwyddo rhwng darparwyr gwasanaethau triniaeth. Mae hyn yn golygu y bydd rhai unigolion yn cael eu cyfrif fwy nag unwaith ar y gronfa ddata. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai cleientiaid yn cael triniaeth gan fwy nag un darparwr gwasanaeth triniaeth.
- Caiff cleientiaid eu categorioedd yn ôl 'prif sylwedd problematig' sy'n golygu y gall llawer o gleientiaid sy'n cael eu categorioedd o dan 'alcohol' hefyd fod yn cael triniaeth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ac i'r gwrthwyneb.
- Ni chofnodwyd y prif sylwedd problematig ar gyfer rhai cleientiaid, gan gynnwys 5,911 o atgyfeiriadau lle nad oedd dyddiad asesu wedi'i gofnodi ar ddyddiad rhewi'r gronfa ddata, 21 Awst 2020. Mae hyn yn uwch na blynedd oedd cynharach oherwydd yn 2014-15, am y tro cyntaf, roedd y maes data sylweddau problematig yn seiliedig ar y digwyddiad asesu yn hytrach na'r digwyddiad atgyfeirio. Felly, hyd yn oed pe bai darparwr y gwasanaeth triniaeth yn cofnodi sylwedd sylfaenol yn lleol ar adeg yr atgyfeiriad, ni fyddai'r wybodaeth wedi'i hadrodd i'r gronfa ddata genedlaethol tan adeg yr asesiad. Yn [Adran 6](#), mae'r 5,911 o atgyfeiriadau hyn wedi'u dadansoddi yn ôl oed/rhyw, ethnigrwydd, Byrddau Cynllunio Ardal a ffynhonnell atgyfeirio at ddibenion gwybodaeth, ond ar gyfer y dadansoddiad dilynol o atgyfeiriadau yn yr adran honno, y mae sylwedd sylfaenol yn elfen allweddol ar ei gyfer, mae'r atgyfeiriadau hyn wedi'u heithrio.

3.3 Mae nifer y darparwyr gwasanaethau triniaeth sy'n cyflwyno i'r gronfa ddata wedi bod yn gostwng yn ystod y 5 mlynedd diwethaf oherwydd bod nifer o ddarparwyr gwasanaethau triniaeth wedi uno. Er y bu gostyngiad yn nifer y darparwyr gwasanaethau triniaeth sy'n cyflwyno data, cyflwynodd 54 o ddarparwyr gwasanaethau triniaeth ddata yn 2015-16, 55 yn 2016-17, 44 yn 2017-18, 42 yn 2018-19 a 43 yn 2019-20, nid yw hyn wedi arwain at leihad yn y data a gofnodwyd.

- Roedd diffyg adrodd eang ar sylwedd problematig eilaidd; mae hyn yn llesteirio'r broses o nodi tueddiadau a phatrymau sy'n datblygu yn y defnydd o amryw gyffuriau.

3.4 Mae'r gronfa ddata yn ddeinamig h.y. mae cofnodion yn destun diwygio wrth i ragor o wybodaeth gael ei chyflwyno gan ddarparwyr gwasanaethau triniaeth. Mae hyn yn golygu nad yw ffigurau yn yr adroddiad hwn yn uniongyrchol gymaradwy â'r rhai a gyhoeddwyd mewn adroddiadau cynharach.

3.5 Ceir crynodeb o'r ffactorau allweddol sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn yn [Atodiad A](#).

4 Crynodeb o'r Canlyniadau

4.1 Cymharu Ardaloedd

Ceir cymhariaeth uniongyrchol rhwng y Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) ar gyfer gweithgarwch atgyfeirio, asesu, trin a chau yn [Adran 5](#).

4.2 Atgyfeiriadau

Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o'r holl weithgarwch yn 2019-20. Felly, mae'r crynodeb hwn yn cynnwys yr holl weithgarwch atgyfeirio o fewn y flwyddyn ac unrhyw wybodaeth asesu, trin neu gau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn drwy gysylltiad ag argyfeiriadau cyn 1 Ebrill 2019.

- Cafwyd 23,887 o atgyfeiriadau i'r gronfa ddata yn 2019-20, a 2,186 o atgyfeiriadau eraill na wnaethant fynychu (DNA) cyn eu hasesu.
- Roedd hyn yn ostyngiad bach mewn atgyfeiriadau o'i gymharu â'r llynedd, gyda gostyngiad o 4.3% ers 2018-19 (24,971). Gweler [Siart 4.1](#) am gyfres amser.
- Cafodd rhai cleientiaid eu hatgyfeirio fwy nag unwaith yn ystod 2019-20 gyda'r 23,887 o atgyfeiriadau yn ymwneud â 17,026 o unigolion, yr oedd 10,135 ohonynt yn newydd i'r gronfa ddata.
- Yn 2019-20, nid oedd gan nifer fawr o atgyfeiriadau (5,911) brif sylwedd problematig cysylltiedig oherwydd na fu asesiad (gweler "Eithriadau atgyfeirio ar gyfer dadansoddi sylweddau sylfaenol" am ragor o fanylion), ac felly ar gyfer dadansoddiad dilynol o atgyfeiriadau yn ôl prif sylwedd, mae'r atgyfeiriadau hyn wedi'u heithrio.
- O'r 22,887 o atgyfeiriadau, nid oedd gan 5,911 brif sylwedd problematig cysylltiedig. O'r 17,976 o atgyfeiriadau sy'n weddill:
 - Nodwyd mai alcohol oedd y prif sylwedd problematig yn 51.1% o'r atgyfeiriadau hyn ac roedd 48.4% â chyffuriau fel y prif sylwedd problematig; mewn 0.4% o achosion roedd dyddiad asesu ond ni chofnodwyd y prif sylwedd problematig.
 - Roedd dynion yn cyfrif am 62.4% o atgyfeiriadau alcohol a 71.7% o atgyfeiriadau cyffuriau.
 - Yr canolrif oed ar gyfer atgyfeiriadau alcohol oedd 43, tra bod y canolrif oed ar gyfer cyffuriau yn 33.
 - Roedd 15.2% o atgyfeiriadau alcohol (lle nodwyd oed) ar gyfer cleientiaid o dan 30 oed – y ffigur cymharol ar gyfer atgyfeiriadau cyffuriau oedd 36.7%.
- Roedd atgyfeiriadau Heroin yn cyfrif am 18.5% (3,304), roedd atgyfeiriadau Canabis yn cyfrif am 10.7% (1,914) ac roedd Cocên yn cyfrif am 6.9% (1,233) o'r holl atgyfeiriadau, cynnydd o 3.0% (555) yn 2015-16.
- Dangosir canlyniadau manwl ar gyfer Atgyfeiriadau yn [Adran 6](#).

4.3 Asesiadau

- Cyfanswm nifer y cleientiaid a aseswyd yn 2019-20 oedd 18,184 sy'n ostyngiad bach o 3.2% o 2018-19 (18,770). Gweler [Siart 4.1](#) ar gyfer y Gyfres Amser.
- Yn 2019-20 roedd 8,787 aseswyd o gleientiaid cyffuriau o gymharu â 9,310 o gleientiaid alcohol.
- Dynion oedd 62.6% o asesiadau alcohol a 71.8% o asesiadau cyffuriau.
- Roedd asesiadau Heroin yn cyfrif am 18.2% (3,312), roedd asesiadau Canabis yn cyfrif am 10.8% (1,964) ac roedd Cocên yn cyfrif am 6.9% (1,246) o'r holl asesiadau, lle mae'r prif sylwedd problematig yn hysbys.
- Dangosir canlyniadau manwl ar gyfer Asesiadau yn [Adran 7](#).

4.4 Triniaethau

- Cyfanswm nifer y cleientiaid a gychwynnodd driniaeth yn 2019-20 oedd 15,796, i lawr 3.8% o gymharu â 2018-19 (16,397). Gweler [Siart 4.1](#) ar gyfer y Gyfres Amser.
- Yn 2019-20, 7,825 oedd nifer y cleientiaid cyffuriau yn dechrau triniaeth o gymharu â 7,838 o Gleientiaid alcohol.
- Dangosir canlyniadau manwl ar gyfer Triniaethau yn [Adran 8](#).

4.5 Amseroedd Aros

- O'r 15,778 o gleientiaid a ddechreuodd driniaeth (ac a oedd ag amseroedd aros dilys), y ganran a ddechreuodd o fewn 20 diwrnod gwaith oedd 91.5% yn 2019-20, cynnydd bach o 2018-19 (91.3%), ac mae'n cynnwys alcohol, cyffuriau a phrif sylwedd problematig na nodwyd. Noder na ellir gwneud cymariaethau â ffigurau a adroddwyd mewn adroddiadau cynharach. Gweler paragraff 3.5 o'r adran [ansawdd data](#) am ragor o fanylion.
- Cafodd 90.9% (7,119) o gleientiaid ag alcohol fel y prif sylwedd problematig eu trin o fewn 20 diwrnod gwaith, tra bod 92.1% (7,202) o gleientiaid â chyffuriau fel y prif sylwedd problematig wedi cael eu trin o fewn 20 diwrnod gwaith. Roedd hyn yn gynnydd yng nghanran y cleientiaid a gafodd driniaeth o 90.3% (7,494) ar gyfer alcohol a 91.6% (7,371) ar gyfer cyffuriau yn 2018-19.
- Dangosir canlyniadau manwl ar gyfer Amseroedd Aros yn [Adran 9](#).

4.6 Proffiliau Canlyniadau Triniaeth

- Dengys Tabl 10.1a-10.1f y gostyngiadau cyffredinol yn amllder y defnydd o alcohol a chyffuriau rhwng TOP cychwyn a TOP ymadael.
- Dengys Tabl 10.1g-10.1i y newid cyffredinol mewn iechyd corfforol, iechyd seicolegol ac ansawdd bywyd rhwng TOP cychwyn a TOP ymadael.
- Dangosir canlyniadau manwl ar gyfer Proffiliau Canlyniadau Triniaeth yn [Adran 10](#).

4.7 Rhesymau dros Gau


- Mae canran yr achosion sy'n gorffen gyda chau cynlluniedig wedi cynyddu o 47.8% yn 2015-16 i 53.9% yn 2019-20.
- Dangosir canlyniadau manwl ar gyfer Cau Achosion yn [Adran 11](#).

4.8 Dangosyddion Perfformiad Allweddol

- Dengys Tabl 12.1 i 12.5 y Pum Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer y Byrddau Cynllunio Ardal.
- Dangosodd canran yr achosion a orffennodd gyda DNA ar ôl asesiad ostyngiad bob blwyddyn o 17.4% yn 2015-16 i 11.0% yn 2019-20.
- Mae canran y cleientiaid sy'n dechrau triniaeth o fewn 20 diwrnod gwaith wedi cynyddu o 83.5% yn 2015-16 i 91.5% yn 2019-20.
- Roedd canran yr achosion a nododd ostyngiad, dim newid neu ymatal o ran camddefnyddio sylweddau problematig yn uwch yn 2019-20 o gymharu â'r 4 blynedd blaenorol.
- Mae canran yr achosion a gaewyd drwy gau â thriniaeth gadarnhaol wedi bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gydag 82.5% yn 2019-20 o'i gymharu â 71.2% yn 2015-16.
- Eleni, mae'r dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer feirws a gludir yn y gwaed (BBV) wedi'i gyflwyno, sy'n adrodd ar nifer a chanran y cleientiaid sy'n cael eu profi ar gyfer BBV.

- Dangosir canlyniadau manwl ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn [Adran 12](#).

Siart 4.1: Cyfres amser cyfanswm y gweithgarwch (a)



Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

- a) Yn cynnwys sylweddau anhysbys
 b) Yn cynnwys cofnodion lle na fynychodd y cleient cyn yr asesiad.

5 Cymharu ardaloedd

Mae Tabl 5.1 yn dangos nifer yr atgyfeiriadau, asesiadau, triniaethau ac achosion a gaewyd yn 2019-20 gan y Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA).

Tabl 5.1: Gweithgaredd yn ôl ardal breswyllo yn 2019-20

Bwrdd Cynllunio Ardal	Atgyfeiriadau	Asesiadau	Triniaethau a Ddechreuwyd	Achosion a Gaewyd
Gogledd Cymru	5,531	3,297	3,189	5,320
Powys	717	607	604	797
Hywel Dda	3,254	2,616	2,451	3,587
Bae'r Gorllewin (a)	2,438	2,070	1,899	2,121
Caerdydd a'r Fro	3,695	2,646	975	4,050
Cwm Taf Morgannwg (b)	2,860	2,459	2,326	3,217
Gwent	4,330	3,533	3,458	4,949
Y Tu Allan i Gymru	936	848	841	957
Anhysbys	126	108	53	142
Cyfanswm	23,887	18,184	15,796	25,140

Ffynhonnell: WNDMS, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

- (a) Mae cyflwyniadau'n seiliedig ar unigolion yn hytrach nag atgyfeiriadau a rhaid cymryd gofal wrth gymharu gweithgareddau. Symudodd y darparwyr gwasanaethau triniaeth yn y maes hwn i system adrodd ganolog. Arweiniodd hyn at uno cofnodion a nifer fawr o achosion o gau lle cafodd cleientiaid eu trosglwyddo o ddarparwyr gwasanaethau triniaeth unigol i'r gwasanaeth canolog.
- (b) Ym mis Ebrill 2019, symudodd Pen-y-bont ar Ogwr o BCA Bae'r Gorllewin i BCA Cwm Taf Morgannwg.

Mae Tabl 5.2 yn dangos nifer y cofnodion a fyddai wedi bod ar agor ar 31 Mawrth bob blwyddyn h.y. heb ddyddiad cau neu lle roedd y dyddiad cau ar ôl 31 Mawrth, yn ôl BCA a phrif sylwedd problematig, sef alcohol neu gyffuriau.

Tabl 5.2: Cyfres amser cofnodion agored yn ôl ardal breswyllo

Alcohol	2015-16			2016-17			2017-18			2018-19			2019-20		
	Ar agor	Ar agor gydag asesiad.	Ar agor gyda thriniaeth	Ar agor	Ar agor gydag asesiad.	Ar agor gyda thriniaeth	Ar agor	Ar agor gydag asesiad.	Ar agor gyda thriniaeth	Ar agor	Ar agor gydag asesiad.	Ar agor gyda thriniaeth	Ar agor	Ar agor gydag asesiad.	Ar agor gyda thriniaeth
Gogledd Cymru	1,010	1,010	947	1,110	1,110	1,051	1,077	1,077	1,054	1,127	1,127	1,104	1,175	1,175	1,142
Powys	264	264	259	133	133	133	182	182	179	218	218	218	246	246	245
Hywel Dda	591	591	518	586	586	504	568	568	483	656	656	579	611	611	519
Bae'r Gorllewin (a)	684	684	674	639	639	632	718	718	711	855	855	824	678	678	604
Caerdydd a'r Fro	574	574	453	621	621	481	557	557	425	676	676	450	668	668	494
Cwm Taf Morgannwg (b)	596	596	521	644	644	584	704	704	644	788	788	726	1,192	1,192	1,097
Gwent	922	922	881	1,024	1,024	975	1,027	1,027	968	1,016	1,016	983	945	945	928
Y Tu Allan i Gymru	78	78	70	96	96	89	93	93	86	120	120	113	137	137	130
Anhysbys	28	28	20	37	37	25	38	38	30	51	51	42	44	44	35
Cyfanswm	4,747	4,747	4,343	4,890	4,890	4,474	4,964	4,964	4,580	5,507	5,507	5,039	5,696	5,696	5,194
Cyffuriau															
Gogledd Cymru	1,038	1,038	991	1,180	1,180	1,132	1,254	1,254	1,224	1,445	1,445	1,410	1,543	1,543	1,500
Powys	309	309	308	175	175	173	228	228	224	243	243	242	269	269	268
Hywel Dda	502	502	481	544	544	524	538	538	514	640	640	617	653	653	634
Bae'r Gorllewin (a)	917	917	914	981	981	975	1,042	1,042	1,029	1,294	1,294	1,249	1,266	1,266	1,134
Caerdydd a'r Fro	663	663	583	748	748	665	848	848	714	945	945	759	927	927	761
Cwm Taf Morgannwg (b)	641	641	605	895	895	873	1,004	1,004	980	1,185	1,185	1,158	1,415	1,415	1,370
Gwent	1,063	1,063	1,020	1,172	1,172	1,137	1,315	1,315	1,277	1,312	1,312	1,281	1,429	1,429	1,402
Y Tu Allan i Gymru	180	180	174	216	216	210	267	267	261	273	273	261	287	287	279
Anhysbys	29	29	23	37	37	25	60	60	53	74	74	68	73	73	64
Cyfanswm	5,342	5,342	5,099	5,948	5,948	5,714	6,556	6,556	6,276	7,411	7,411	7,045	7,862	7,862	7,412

Ffynhonnell: WNDMS, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Mae cyflwyniadau'n seiliedig ar unigolion yn hytrach nag atgyfeiriadau a rhaid cymryd gofal wrth gymharu gweithgareddau. Symudodd y darparwyr gwasanaethau triniaeth yn y maes hwn i system adrodd ganolog. Arweiniodd hyn at uno cofnodion a nifer fawr o achosion o gau lle cafodd cleientiaid eu trosglwyddo o ddarparwyr gwasanaethau triniaeth unigol i'r gwasanaeth canolog.

(b) Ym mis Ebrill 2019, symudodd Pen-y-bont ar Ogwr o BCA Bae'r Gorllewin i BCA Cwm Taf Morgannwg

Mae Tabl 5.3a yn dangos hanes atgyfeiriadau yn 2019-20. O'r 23,887 o atgyfeiriadau yn 2019-20, roedd y rhain yn ymwneud â 17,026 o unigolion. Roedd 10,135 (59.5%) o'r unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20 yn achosion newydd, sy'n golygu eu bod wedi cael eu cyfeirio at ddarparwr gwasanaeth triniaeth am y tro cyntaf. Roedd canran yr achosion newydd yn amrywio ar draws ardaloedd BCA, yn amrywio o 49.3% ym Mae'r Gorllewin i 68.8% ym Mhowys. Gwelir ystod debyg yn nhabl 5.3b ar gyfer alcohol a 5.3c ar gyfer cyffuriau, gyda Bae'r Gorllewin yn nodi'r ganran isaf o achosion newydd a Phowys yn nodi'r uchaf ar draws yr ardaloedd BCA.

Tabl 5.3a: Hanes blaenorol atgyfeiriadau yn ôl BCA yn 2019-20: Pob Sylwedd

	Pob Atgyfeiriad	Unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20	Cyfartaledd yr atgyfeiriadau fesul unigolyn	Achosion Newydd	Canran yr Achosion Newydd
	(a)	(b)	(c)	(ch)	(d)
Gogledd Cymru	5,531	3,914	1.4	2,471	63.1
Powys	717	626	1.1	431	68.8
Hywel Dda	3,254	2,411	1.3	1,549	64.2
Bae'r Gorllewin (f)	2,438	1,586	1.5	782	49.3
Caerdydd a'r Fro	3,695	1,897	1.9	986	52.0
Cwm Taf Morgannwg	2,860	2,166	1.3	1,261	58.2
Gwent	4,330	3,506	1.2	2,119	60.4
Y Tu Allan i Gymru	936	796	1.2	424	53.3
Anhysbys	126	124	1.0	112	90.3
Cyfanswm	23,887	17,026	1.4	10,135	59.5

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Pob atgyfeiriad yn 2019-20

(b) Pob atgyfeiriad ac eithrio atgyfeiriadau lluosog yn 2019-20

(c) Pob atgyfeiriad wedi'u rhannu yn ôl unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20

(d) Nifer yr unigolion nad oeddent wedi'u hatgyfeirio'n flaenorol ers mis Ebrill 2005 (cychwyn y gronfa ddata)

(e) Achosion newydd wedi'u rhannu yn ôl unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20

(f) Mae cyflwyniadau'n seiliedig ar unigolion yn hytrach nag atgyfeiriadau a rhaid cymryd gofal wrth gymharu gweithgareddau. Symudodd y darparwyr gwasanaethau triniaeth yn y maes hwn i system adrodd ganolog. Arweiniodd hyn at uno cofnodion a nifer fawr o achosion o gau lle cafodd cleientiaid eu trosglwyddo o ddarparwyr gwasanaethau triniaeth unigol i'r gwasanaeth canolog.

(g) Ym mis Ebrill 2019, symudodd Pen-y-bont ar Ogwr o BCA Bae'r Gorllewin i BCA Cwm Taf Morgannwg

Tabl 5.3b: Hanes blaenorol atgyfeiriadau yn ôl BCA yn 2019-20: Alcohol

	Pob Atgyfeiriad	Unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20	Cyfartaledd yr atgyfeiriadau fesul unigolyn	Achosion Newydd	Canran yr Achosion Newydd
	(a)	(b)	(c)	(ch)	(d)
Gogledd Cymru	1,700	1,385	1.2	890	64.3
Powys	270	252	1.1	181	71.8
Hywel Dda	1,326	1,089	1.2	714	65.6
Bae'r Gorllewin (f)	851	585	1.5	343	58.6
Caerdydd a'r Fro	1,625	875	1.9	490	56.0
Cwm Taf Morgannwg	1,412	1,077	1.3	664	61.7
Gwent	1,683	1,475	1.1	948	64.3
Y Tu Allan i Gymru	305	277	1.1	207	74.7
Anhysbys	19	19	1.0	15	78.9
Cyfanswm	9,191	7,034	1.3	4,452	63.3

Ffynhonnell: WNDMS, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Pob atgyfeiriad yn 2019-20

(b) Pob atgyfeiriad ac eithrio atgyfeiriadau lluosog yn 2019-20

(c) Pob atgyfeiriad wedi'u rhannu yn ôl unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20

(d) Nifer yr unigolion nad oeddent wedi'u hatgyfeirio'n flaenorol ers mis Ebrill 2005 (cychwyn y gronfa ddata)

(e) Achosion newydd wedi'u rhannu yn ôl unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20

(f) Mae cyflwyniadau'n seiliedig ar unigolion yn hytrach nag atgyfeiriadau a rhaid cymryd gofal wrth gymharu gweithgareddau. Symudodd y darparwyr gwasanaethau triniaeth yn y maes hwn i system adrodd ganolog. Arweiniodd hyn at uno cofnodion a nifer fawr o achosion o gau lle cafodd cleientiaid eu trosglwyddo o ddarparwyr gwasanaethau triniaeth unigol i'r gwasanaeth canolog.

(g) Ym mis Ebrill 2019, symudodd Pen-y-bont ar Ogwr o BCA Bae'r Gorllewin i BCA Cwm Taf Morgannwg

Tabl 5.3c: Hanes blaenorol atgyfeiriadau yn ôl BCA yn 2019-20: Cyffuriau

	Pob Atgyfeiriad	Unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20	Cyfartaledd yr atgyfeiriadau fesul unigolyn	Achosion Newydd	Canran yr Achosion Newydd
	(a)	(b)	(c)	(ch)	(d)
Gogledd Cymru	1,503	1,222	1.2	687	56.2
Powys	324	286	1.1	189	66.1
Hywel Dda	1,235	937	1.3	561	59.9
Bae'r Gorllewin (f)	1,240	822	1.5	339	41.2
Caerdydd a'r Fro	980	666	1.5	298	44.7
Cwm Taf Morgannwg	1,067	895	1.2	476	53.2
Gwent	1,775	1,506	1.2	831	55.2
Y Tu Allan i Gymru	540	458	1.2	172	37.6
Anhysbys	42	42	1.0	39	92.9
Cyfanswm	8,706	6,834	1.3	3,592	52.6

Ffynhonnell: WNDMS, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Pob atgyfeiriad yn 2019-20

(b) Pob atgyfeiriad ac eithrio atgyfeiriadau lluosog yn 2019-20

(c) Pob atgyfeiriad wedi'u rhannu yn ôl unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20

(d) Nifer yr unigolion nad oeddent wedi'u hatgyfeirio'n flaenorol ers mis Ebrill 2005 (cychwyn y gronfa ddata)

(e) Achosion newydd wedi'u rhannu yn ôl unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20

(f) Mae cyflwyniadau'n seiliedig ar unigolion yn hytrach nag atgyfeiriadau a rhaid cymryd gofal wrth gymharu gweithgareddau. Symudodd y darparwyr gwasanaethau triniaeth yn y maes hwn i system adrodd ganolog. Arweiniodd hyn at uno cofnodion a nifer fawr o achosion o gau lle cafodd cleientiaid eu trosglwyddo o ddarparwyr gwasanaethau triniaeth unigol i'r gwasanaeth canolog.

(g) Ym mis Ebrill 2019, symudodd Pen-y-bont ar Ogwr o BCA Bae'r Gorllewin i BCA Cwm Taf Morgannwg.

6 Atgyfeiriadau

Cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau yn 2019-20 oedd 26,073.

Mae Ffigur 6.1 yn dangos y statws ar hyd y llwybr triniaeth ar gyfer y 26,073 o atgyfeiriadau yn 2019-20. **O'r rhain, roedd gan 2186 DNA cyn cael eu hasesu (a ddangosir ar hyd cangen goch y diagram) ac ar gyfer pob dadansoddiad pellach o atgyfeiriadau, mae'r rhain wedi'u heithrio.**


O'r 23,887 o atgyfeiriadau sy'n weddill (ac eithrio'r DNAs cyn cael eu hasesu) yn 2019-20, roedd 20,913 (87.5%) eisoes wedi'u cau erbyn 21 Awst 2020, ac o'r rheini, roedd 15,168 (63.5%) wedi dechrau unrhyw fath o driniaeth cyn cael eu rhyddhau.

O'r 26,073 o atgyfeiriadau yn 2019-20, roedd 5,330 wedi'u cau i wasanaethau cyn cynnal asesiad. Caewyd y rhan fwyaf o'r cofnodion hyn o ganlyniad i dderbyn atgyfeiriad trydydd parti ond pan gysylltwyd â'r cleientiaid, nid oeddent yn ymwybodol bod atgyfeiriad wedi'i wneud, neu yn dilyn asesiad cychwynnol, roedd y cleient wedi dewis peidio â chychwyn ymyriad triniaeth a argymhellwyd, neu nid oedd yn barod i gymryd rhan mewn triniaeth neu nid oedd angen triniaeth camddefnyddio sylweddau.


Cafwyd 2,147 o atgyfeiriadau lle cafodd achos y cleient ei gau i wasanaethau cyn i driniaeth ddechrau. O'r rhain, roedd 212 wedi rhoi'r gorau i gysylltu ac fe'u caewyd fel DNA, tra bod y 1,935 arall wedi'u cau am nifer o resymau gwahanol e.e. triniaeth wedi'i thynnu'n ôl, wedi symud, wedi marw ac ati.

Sylwer nad yw'r niferoedd yn ffigur 6.1 ond yn ymwneud â gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag atgyfeiriadau 2019-20 ac felly nid ydynt yn cynnwys gweithgarwch sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau cyn 1 Ebrill 2019.

Ffigur 6.1: Statws presennol ar hyd llwybr triniaeth i'r rhai a atgyfeiriwyd yn 2019-20 (ar ddyddiad rhewi 21 Awst 2020)



Siart 6.1: Cyfres amser atgyfeiriadau



Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Yn cynnwys sylweddau anhysbys

Atgyfeiriadau yn ôl Rhywedd, Oed, Prif Sylweddau Problematig a Tharddiad Ethnig

Tabl 6.1: Atgyfeiriadau yn 2019-20 yn ôl oed a rhywedd: Pob Atgyfeiriad (a)

Band oedran atgyfeirio	Gwryw		Benyw		Cyfanswm	
	Atgyfeiriad	Cyfradd Atgyfeirio (b)	Atgyfeiriad	Cyfradd Atgyfeirio (b)	Atgyfeiriad	Cyfradd Atgyfeirio (b)
10-14	178	192	132	150	310	171
15-19	768	860	452	544	1,220	708
20-29	3,141	1,475	1,379	697	4,520	1,101
30-39	4,768	2,540	2,302	1,210	7,070	1,871
40-49	3,831	2,121	1,894	1,008	5,725	1,553
50-59	2,228	1,045	1,260	560	3,488	796
60+	900	225	619	136	1,519	178
Pob oedran (c)	15,836	1,019	8,051	504	23,887	758
Canolrif oed (d)	38	.	38	.	38	.

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Yn cynnwys atgyfeiriadau lle na nodwyd y prif sylwedd problematig

(b) Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth; Ffynhonnell: Amcangyfrif canol blwyddyn SYG 2019

(c) Yn cynnwys 29 atgyfeiriad lle mae'r oed yn llai na 10, a 6 atgyfeiriad lle nad yw'r oed yn hysbys.

(d) Y canolrif yw'r rhif canol mewn rhestr o rifau wedi'u trefnu, h.y. y gwerth lle mae'r un nifer o werthoedd islaw'r canolrif ag sydd uwchben.

. Eitem ddata'n amherthnasol

Tabl 6.2: Atgyfeiriadau yn ôl ardal breswyllo yn 2019-20 yn ôl oed a rhywedd

	Band oedran atgyfeirio								
Bwrdd Cynllunio Ardal	10-14	15-19	20-29	30-39	40-49	50-59	60+	Pob Oed (a)	EASR (b)
Gwryw									
Gogledd Cymru	2	92	805	1,061	909	560	212	3,644	1155.2
Powys	17	58	129	129	71	55	30	489	884.6
Hywel Dda	27	162	444	572	483	282	172	2,142	1283.1
Bae'r Gorllewin (c)	31	78	221	498	444	246	48	1,566	846.6
Caerdydd a'r Fro	3	43	423	789	693	372	149	2,472	1024.3
Cwm Taf Morgannwg (d)	46	123	326	582	427	264	89	1,858	865.6
Gwent	46	164	601	839	621	370	181	2,822	1011.9
Y Tu Allan i Gymru	1	19	186	290	174	75	15	760	.
Anhysbys	5	29	6	8	9	4	4	83	.
Cyfanswm	178	768	3,141	4,768	3,831	2,228	900	15,836	1074.5
Benyw									
Gogledd Cymru	3	32	318	536	492	350	156	1,887	593.8
Powys	8	25	50	46	44	40	15	228	411.9
Hywel Dda	30	107	208	258	256	158	95	1,112	640.7
Bae'r Gorllewin (c)	19	39	153	327	195	99	40	872	343.7
Caerdydd a'r Fro	1	41	173	354	326	222	106	1,223	505.9
Cwm Taf Morgannwg (d)	18	64	158	7289	233	154	83	1,002	454.9
Gwent	40	131	285	431	297	212	112	1,508	521.9
Y Tu Allan i Gymru	0	5	34	58	46	24	9	176	.
Anhysbys	13	8	0	3	5	1	3	43	.
Cyfanswm	132	452	1,379	2,302	1,894	1,260	619	8,051	537.2

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Yn cynnwys cyfanswm o 22 atgyfeiriad ar gyfer gwrywod lle mae'r oed yn llai na 10 a chyfanswm o 13 atgyfeiriad ar gyfer benywod lle mae'r oed yn llai na 10.

(b) [Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oed](#)

(c) Mae cyflwyniadau'n seiliedig ar unigolion yn hytrach nag atgyfeiriadau a rhaid cymryd gofal wrth gymharu gweithgareddau. Symudodd y darparwyr gwasanaethau triniaeth yn y maes hwn i system adrodd ganolog. Arweiniodd hyn at uno cofnodion a nifer fawr o achosion o gau lle cafodd cleientiaid eu trosglwyddo o ddarparwyr gwasanaethau triniaeth unigol i'r gwasanaeth canolog.

(d) Ym mis Ebrill 2019, symudodd Pen-y-bont ar Ogwr o BCA Bae'r Gorllewin i BCA Cwm Taf Morgannwg

. Eitem ddata'n amherthnasol

Tabl 6:3 Gweithgaredd atgyfeirio yn ôl Tarddiad Ethnig

	Blwyddyn Atgyfeirio									
	2015-16		2016-17		2017-18		2018-19		2019-20	
	Nifer	Canr an	Nifer	Canr an	Nifer	Canr an	Nifer	Canr an	Nifer	Canr an
Gwyn	20,466	83.3	21,070	87.4	21,038	87.1	21,386	85.6	19,679	82.4
Gwyn a Du Caribiaidd	45	0.2	38	0.2	51	0.2	44	0.2	38	0.2
Gwyn a Du Affricanaidd	10	0.0	16	0.1	18	0.1	9	0.0	30	0.1
Gwyn ac Asiaidd	20	0.1	26	0.1	39	0.2	23	0.1	20	0.1
Unrhyw Gefndir Cymysg Arall	87	0.4	91	0.4	77	0.3	94	0.4	75	0.3
Indiaidd	16	0.1	30	0.1	27	0.1	16	0.1	26	0.1
Pacistanaidd	28	0.1	40	0.2	29	0.1	29	0.1	17	0.1
Bangladeshaidd	17	0.1	27	0.1	24	0.1	21	0.1	7	0.0
Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall	56	0.2	72	0.3	71	0.3	67	0.3	66	0.3
Caribiaidd	29	0.1	31	0.1	22	0.1	19	0.1	14	0.1
Affricanaidd	47	0.2	38	0.2	35	0.1	35	0.1	37	0.2
Unrhyw Gefndir Du Arall	63	0.3	60	0.2	59	0.2	57	0.2	74	0.3
Grŵp ethnig arall (a)	52	0.2	40	0.2	39	0.2	36	0.1	28	0.1
Cleient heb ddatgan (b)	3,627	14.8	2,540	10.5	2,616	10.8	3,135	12.6	3,776	15.8
Anhysbys	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0	0	0.0
Cyfanswm	24,563	100	24,119	100	24,145	100	24,971	100	23,887	100

Ffynhonnell: WNDMS, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Yn cynnwys Tsieineaidd ac Unrhyw grŵp ethnig arall

(b) Gwrthododd y cleient ddatgan ei tarddiad ethnig

(c) Ni chofnodwyd tarddiad ethnig y cleient

Tabl 6.4: Atgyfeiriadau yn ôl ardal breswyllo yn 2019-20 yn ôl tarddiad ethnig

Bwrdd Cynllunio Ardal	Tarddiad Ethnig			
	Gwyn Prydeinig	Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig	Heb Nodi	Cyfanswm
Gogledd Cymru	4,889	32	610	5,531
Powys	701	13	3	717
Hywel Dda	2,842	18	394	3,254
Bae'r Gorllewin (a)	2,026	33	379	2,438
Caerdydd a'r Fro	1,819	185	1,691	3,695
Cwm Taf Morgannwg (b)	2,599	25	236	2,860
Gwent	3,889	91	350	4,330
Y Tu Allan i Gymru	870	33	33	936
Anhysbys	44	2	80	126
Cyfanswm	19,679	432	3,776	23,887

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

- (a) Mae cyflwyniadau'n seiliedig ar unigolion yn hytrach nag atgyfeiriadau a rhaid cymryd gofal wrth gymharu gweithgareddau. Symudodd y darparwyr gwasanaethau triniaeth yn y maes hwn i system adrodd ganolog. Arweiniodd hyn at uno cofnodion a nifer fawr o achosion o gau lle cafodd cleientiaid eu trosglwyddo o ddarparwyr gwasanaethau triniaeth unigol i'r gwasanaeth canolog.
- (b) Ym mis Ebrill 2019, symudodd Pen-y-bont ar Ogwr o BCA Bae'r Gorllewin i BCA Cwm Taf Morgannwg

Ffynonellau Atgyfeirio

Mae Tabl 6.5 a siart 6.2 yn dangos nifer yr atgyfeiriadau gan bob un o'r grwpiau ffynhonnell atgyfeirio, yn ôl y prif gategori sylweddau problematig (alcohol neu gyffuriau). Roedd hunanatgyfeiriadau yn cyfrif am 40.9% o'r atgyfeiriadau (50.5% ar gyfer pob atgyfeiriad alcohol a 39.6% ar gyfer pob atgyfeiriad cyffuriau), ac roedd y System Cyfiawnder Troseddol yn cyfrif am 16.9% o atgyfeiriadau (8.5% ar gyfer pob atgyfeiriad alcohol a 29.0% ar gyfer atgyfeiriadau cyffuriau).


Tabl 6.5: Ffynhonnell yr atgyfeiriadau yn 2019-20 yn ôl y prif sylwedd problematig: Pob Atgyfeiriad

Ffynhonnell yr Atgyfeiriad (a)	Alcohol	Cyffuria	Heb ei Nodi	Cyfansw
Hunanatgyfeirio	4,638	3,453	1,672	9,763
System Cyfiawnder Troseddol	784	2,526	715	4,025
Un Pwynt Ymgysylltu (SPOE)	1,026	669	603	2,298.
Meddyg teulu	581	239	895	1,715
Asiantaethau Cymorth	730	572	576	1,878
Y GIG	736	247	962	1,945
Darparwyr Gwasanaethau Triniaeth Anstatudol	337	381	166	884
Darparwyr Gwasanaethau Triniaeth Statudol	67	117	48	232
Arall (b)	292	505	350	1,147
Cyfanswm	9,191	8,709	5,987	23,887

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Gweler [Atodiad B](#) am ddadansoddiad o ffynonellau atgyfeirio(b) Yn cynnwys 18 atgyfeiriad lle nad yw'r ffynhonnell atgyfeirio yn hysbys. Gweler [Atodiad B](#) am restr lawn o ffynonellau atgyfeirio sydd wedi'u cynnwys o dan Arall.

Siart 6.2: Ffynhonnell yr atgyfeiriadau yn 2019-20 yn ôl y prif sylwedd problematig



Ffynhonnell: WNDMS, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20

Dengys Tabl 6.6 fod y 23,887 o atgyfeiriadau a wnaed yn 2019-20 (ac eithrio'r cleientiaid hynny sy'n rhai DNA cyn asesu) yn ymwneud â 17,026 o gleientiaid unigol gyda chyfartaledd o 1.4 atgyfeiriad i bob cleient yn ystod y flwyddyn ariannol. O'r rhain, 17,026 o gleientiaid, roedd 10,135 (59.5%) yn achosion newydd, sy'n golygu eu bod wedi cael eu cyfeirio at ddarparwr gwasanaeth triniaeth am y tro cyntaf yn 2019-20, neu o leiaf am y tro cyntaf ers i'r gronfa ddata ddechrau ar 1 Ebrill 2005.

Tabl 6.6: Hanes blaenorol atgyfeiriadau yn 2019-20: Pob Atgyfeiriad

	Pob Atgyfeiriad	Unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20	Cyfartaledd yr atgyfeiriadau fesul unigolyn	Achosion Newydd	Canran yr Achosion Newydd
	(a)	(b)	(c)	(ch)	(d)
Rhywedd					
Gwryw	15,836	11,392	1.4	6,497	57.0
Benyw	8,051	5,634	1.4	3,638	64.6
Oed					
10-14	310	295	1.1	295	100.0
15-19	1,220	1,045	1.2	1,034	98.9
20-29	4,520	3,322	1.4	2,309	69.5
30-39	7,070	4,899	1.4	2,513	51.3
40-49	5,725	3,890	1.5	1,883	48.4
50-59	3,488	2,417	1.4	1,296	53.6
60+	1,519	1,123	1.4	770	68.6
Pob Oedran (f)	23,887	17,026	1.4	10,135	59.5
Canolrif oed (g)	38	38	.	36	.

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Pob atgyfeiriad yn 2019-20

(b) Pob atgyfeiriad ac eithrio atgyfeiriadau lluosog yn 2019-20

(c) Pob atgyfeiriad wedi'u rhannu yn ôl unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20

(d) Nifer yr unigolion nad oeddent wedi'u hatgyfeirio'n flaenorol ers mis Ebrill 2005 (cychwyn y gronfa ddata)

(e) Achosion newydd wedi'u rhannu yn ôl unigolion a atgyfeiriwyd yn 2019-20

(f) Yn cynnwys 5 atgyfeiriad lle mae'r oed yn llai na 10

(g) Y canolrif yw'r rhif canol mewn rhestr o rifau wedi'u trefnu, h.y. y gwerth lle mae'r un nifer o werthoedd islaw'r canolrif ag sydd uwchben.
. Eitem ddata'n amherthnasol

Tabl 6.7: Cyfres amser achosion newydd (a) yn ôl oed

Oed	Blwyddyn Atgyfeirio									
	2015-16		2016-17		2017-18		2018-19		2019-20	
	Nifer	Canran (b)	Nifer	Canran (b)	Nifer	Canran (b)	Nifer	Canran (b)	Nifer	Canran (b)
10-14	316	81.7	341	81.4	286	90.8	303	89.6	295	95.2
15-19	1,039	65.7	970	72.7	1,122	82.5	1,240	85.1	1,034	84.8
20-29	1,806	36.3	1,990	41.0	2,130	45.3	2,343	49.6	2,309	51.1
30-39	1,845	26.3	2,075	29.6	2,232	32.0	2,500	34.3	2,513	35.5
40-49	1,669	28.1	1,712	29.5	1,928	32.9	2,082	34.2	1,883	32.9
50-59	1,079	33.2	1,161	35.1	1,249	35.5	1,370	38.8	1,296	37.2
60+	600	42.8	630	46.1	692	49.0	772	50.7	770	50.7
Pob Oed	8,377	34.1	8,891	36.9	9,644	39.9	10,631	42.6	10,135	42.4

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Nifer yr unigolion nad oeddent wedi'u cyfeirio'n flaenorol ers mis Ebrill 2005 (cychwyn y gronfa ddata)

(b) Canran yr holl atgyfeiriadau yn ôl categori oedran

(c) Yn cynnwys 23 o achosion newydd yn 2015-16, 12 yn 2016-17, 5 yn 2017-18, 21 yn 2018-19 a 35 yn 2019-20 lle mae'r oed yn llai na 10.

Eithriadau atgyfeirio ar gyfer dadansoddiad o brif sylweddau problematig

Fel yr esboniwyd yn yr adran ansawdd data ([Adran 3](#)), cafwyd 5,911 o atgyfeiriadau nad oedd y prif sylweddau problematig yn hysbys ar eu cyfer oherwydd nad oedd dyddiad asesu wedi'i gofnodi ar gyfer y cleient hwnnw ar y dyddiad rhewi, sef 21 Awst 2020. Er gwybodaeth, dangosir dadansoddiad o'r atgyfeiriadau hyn sydd wedi'u heithrio (yn ôl rhywedd, oed, ethnigrwydd, Byrddau Cynllunio Ardal a ffynhonnell yr atgyfeiriad) yn Nhabl 6.8. Er mwyn darparu cymhariaeth, dangosir proffil yr achosion hyn sydd wedi'u heithrio ochr yn ochr â'r atgyfeiriadau a gynhwyswyd, a gellir gweld nad yw'n ymddangos bod atgyfeiriadau wedi'u heithrio'n anghymesur oherwydd oed neu rywedd. O ran ethnigrwydd, mae'r prif wahaniaeth rhwng yr achosion a eithriwyd ac a gynhwyswyd yn ymwneud â'r categori "Heb Ddatgan", sy'n llawer mwy cyffredin yn yr achosion sydd wedi'u heithrio.

Mewn perthynas â'r Byrddau Cynllunio Ardal, roedd niferoedd uchel o eithriadau (yn gymharol) ar gyfer Gogledd Cymru, ond nifer fach yn gymharol ar gyfer Powys. Ar gyfer ffynhonnell yr atgyfeiriad, roedd mwy o eithriadau (yn gymharol) lle'r oedd yr atgyfeiriadau yn Hunanatgyfeiriadau ac atgyfeiriadau'r GIG a llai o eithriadau ar gyfer gwasanaeth cyffuriau statudol a gwasanaeth cyffuriau anstatudol.

Dylid nodi, fodd bynnag, y byddem yn disgwyl y byddai'r mwyafrif llethol o'r prif sylweddau problematig anhysbys hyn yn cael eu nodi wedyn, yn dilyn asesiad.

Tabl 6.8: Atgyfeiriadau wedi'u heithrio ar gyfer prif sylwedd problematig

Rhywedd	Wedi'u Heithrio	Wedi'u Cynnwys
Gwryw	3,810 (64.5%)	15,836 (66.3%)
Benyw	2,101 (35.5%)	8,050 (33.7%)
Cyfanswm	5,911 (100.0%)	23,887 (100.0%)

Oed	Wedi'u Heithrio	Wedi'u Cynnwys
< 10	3 (0.0%)	29 (0.1%)
10-14	52 (0.9%)	310 (1.3%)
15-19	283 (4.8%)	1,220 (5.1%)
20-29	1,099 (18.6%)	4,520 (18.9%)
30-39	1,684 (28.5%)	7,070 (29.6%)
40-49	1,366 (23.1%)	5,725 (24.0%)
50-59	952 (16.1%)	3,488 (14.6%)
60+	469 (7.9%)	1,519 (6.4%)
Anhysbys	4 (0.1%)	6 (0.0%)
Cyfanswm	5,911 (100.0%)	23,887 (100.0%)

Ethnigrwydd	Wedi'u Heithrio	Wedi'u Cynnwys
Gwyn	4,495 (76.0%)	19,679 (82.4%)
Du	32 (0.5%)	125 (0.5%)
Asiaidd	20 (0.3%)	116 (0.5%)
Cymysg	36 (0.6%)	163 (0.7%)
Arall	7 (0.2%)	28 (0.1%)
Heb Nodi	28 (0.1%)	3,776 (15.8%)
Cyfanswm	5,911 (100.0%)	23,887 (100.0%)

BCA	Wedi'u Heithrio	Wedi'u Cynnwys
Gogledd Cymru	2,313 (39.1%)	5,531 (23.2%)
Powys	123 (2.1%)	717 (3.0%)
Hywel Dda	686 (11.6%)	3,254 (13.6%)
Bae'r Gorllewin	343 (5.8%)	2,438 (10.2%)
Caerdydd a'r Fro	1,085 (18.4%)	3,695 (15.5%)
Cwm Taf Morgannwg (a)	370 (6.3%)	2,860 (12.0%)
Gwent	872 (14.8%)	4,330 (18.1%)
Arall - Y Tu Allan i Gymru	91 (1.5%)	936 (3.9%)
Anhysbys	28 (0.5%)	126 (0.5%)
Cyfanswm	5,911 (100.0%)	23,887 (100.0%)

(a) Ym mis Ebrill 2019, symudodd Pen-y-bont ar Ogwr o BCA Bae'r Gorllewin i BCA Cwm Taf Morgannwg

Ffynhonnell yr Atgyfeiriad	Wedi'u Heithrio	Wedi'u Cynnwys
Hunanatgyfeirio	1,654 (28.0%)	9,763 (40.9%)
Meddyg teulu	894 (15.1%)	1,715 (7.2%)
System Cyfiawnder Troseddol	710 (12.0%)	4,025 (16.9%)
Gwasanaeth Cyffuriau Anstatudol	162 (2.7%)	884 (3.7%)
Y GIG	960 (16.2%)	1,945 (8.1%)
Un Pwynt Ymgysylltu	599 (10.1%)	2,298 (9.6%)
Gwasanaeth Cyffuriau Statudol	44 (0.7%)	232 (1.0%)
Arall	347 (5.9%)	1,147 (4.8%)
Asiantaethau Cymorth	541 (9.2%)	1,878 (7.9%)
Cyfanswm	5,911 (100.0%)	23,887 (100.0%)

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Atgyfeiriadau yn ôl prif sylwedd problematig

Mae Tabl 6.9 yn dangos, o'r 23,887 o atgyfeiriadau yn 2019-20 (ac eithrio DNAs cyn asesu), mai alcohol oedd y prif sylwedd problematig a gofnodwyd mewn 9,191 o'r achosion, ac roedd 1,820 o atgyfeiriadau ar gyfer alcohol ar y cyd â chyffuriau. Cafwyd 8,709 o atgyfeiriadau gyda chyffuriau fel y prif sylwedd problematig a gofnodwyd, ac roedd 1,173 ohonynt ar y cyd ag alcohol. Ar gyfer 76 o'r atgyfeiriadau (0.4%), ni nodwyd unrhyw brif sylwedd problematig dilys ar adeg yr atgyfeiriad. Ar gyfer y 5,911 sy'n weddill, mae'r rhain yn gleientiaid nad ydynt wedi cyrraedd y cam asesu, dylid nodi'r prif sylwedd problematig unwaith y bydd yr asesiad wedi'i gynnal.

Tabl 6.9: Atgyfeiriadau yn 2019-20 yn ôl prif sylwedd problematig

Prif sylwedd problematig		Cyfanswm			
		Gwryw	Benyw	Nifer	Canran
Alcohol	Alcohol yn unig (a)	4,434	2,937	7,371	41.0
	Alcohol ar y cyd â Chyffuriau (b)	1,309	511	1,820	10.1
	- Cyfanswm Alcohol	5,743	3,448	9,191	51.1
Cyffuriau	Cyffuriau yn unig (c)	5,371	2,165	7,536	41.9
	Cyffuriau ar y cyd ag Alcohol (d)	870	303	1,173	6.5
	- Cyfanswm Cyffuriau	6,241	2,468	8,709	48.4
Anhysbys	Anhysbys (e)	42	34	76	0.4
Pob Atgyfeiriad		12,026	5,950	17,976	100

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Alcohol wedi'i gofnodi fel y prif sylwedd problematig heb nodi unrhyw sylwedd arall.


(b) Alcohol wedi'i gofnodi fel y prif sylwedd problematig ond gyda chamddefnyddio cyffuriau hefyd yn cael ei nodi.

(c) Cofnodwyd cyffuriau fel y prif sylwedd problematig ac ni nodwyd alcohol.

(d) Cofnodwyd cyffuriau fel y prif sylwedd problematig ond gydag alcohol hefyd yn cael ei gofnodi.

(e) Ni adroddwyd am unrhyw sylwedd problematig i'r gronfa ddata ar gam yr atgyfeiriad, bydd y mwyafrif llethol o'r pethau anhysbys hyn yn cael eu nodi yn dilyn asesiad o'r cleient.

Siart 6.3: Atgyfeiriadau yn 2019-20 yn ôl prif sylwedd problematig



Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

- (a) Cofnodwyd alcohol fel y prif sylwedd problematig heb unrhyw sylwedd arall.
- (b) Cofnodwyd alcohol fel y prif sylwedd problematig ond gyda chamddefnyddio cyffuriau hefyd yn cael ei nodi.
- (c) Cofnodwyd cyffuriau fel y prif sylwedd problematig ac ni nodwyd alcohol.
- (d) Cofnodwyd cyffuriau fel y prif sylwedd problematig ond gydag alcohol hefyd yn cael ei gofnodi.
- (e) Ni adroddwyd am unrhyw sylwedd problematig i'r gronfa ddata ar gam yr atgyfeiriad, bydd y mwyafrif llethol o'r pethau anhysbys hyn yn cael eu nodi yn dilyn asesiad o'r cleient.
- (f) Ni nodwyd unrhyw sylwedd problematig i'r gronfa ddata gan nad yw'r cleient wedi cyrraedd y cam asesu.

Dengys Tabl 6.10 y dadansoddiad o'r prif sylweddau problematig yn fanylach. Heroin yw'r cyffur a gofnodir amlaf sy'n cyfrif am 3,304 (18.5%) o atgyfeiriadau, ac yna Cannabis gyda 1,914 (10.7%).

Dangosir y rhestr o gyffuriau a gynhwysir o dan y grwpiau "Opiadau Eraill", "Cyffuriau Eraill" ac "Symbylyddion Eraill" yn [Atodiad C](#).

Gwrywod oedd 67.0% o'r holl atgyfeiriadau, lle mae'r prif sylwedd problematig yn hysbys, er bod patrymau'n amrywio yn ôl sylwedd, gyda dynion yn cyfrif am 62.5% o atgyfeiriadau ag alcohol fel y prif sylweddau problematig, 71.7% ar gyfer cyffuriau, ac mor uchel â 100.0% ar gyfer Cyffuriau Gwellu Perfformiad a Delwedd ac 84.1% ar gyfer Cocên.

Canolrif oed cleientiaid a atgyfeiriwyd yn 2019-20 lle'r oedd alcohol yn brif sylwedd problematig oedd 43, o'i gymharu â 33 ar gyfer cleientiaid a atgyfeiriwyd lle mai cyffuriau oedd y prif sylwedd problematig.

Tabl 6.10: Atgyfeiriadau yn 2019-20 yn ôl prif sylwedd problematig (lle bo'n hysbys)

Prif sylwedd problematig	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	
			Nifer	Canran (a)
Alcohol	5,743	3,448	9,191	51.4
Heroin	2,299	1,005	3,304	18.5
Canabis (b)	1,339	575	1,914	10.7
Cocên	1,037	196	1,233	6.9
Amffetaminau	247	143	390	2.2
Methadon (c)	293	94	387	2.2
Crac Cocên	200	88	288	1.6
Bensodiasepinau	125	55	180	1.0
Rhithbeiriau	41	14	55	0.3
Ecstasi	24	6	30	0.2
Toddyddion	11	4	15	0.1
Cyffuriau sy'n Gwella Perfformiad a Delwedd	3	0	3	0.0
Opiadau Eraill (d)	396	183	579	3.2
Cyffuriau Eraill (e)	224	102	326	1.8
Symbylyddion Eraill (f)	0	1	1	0.0
Pob Atgyfeiriad	11,982	5,914	17,896	100

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Canran yr holl atgyfeiriadau lle nodwyd y prif sylwedd problematig.

(b) Efallai y bydd achosion lle mae'n bosibl bod cannabinoidau wedi'u cofnodi fel canabis.

(c) Nid yw'n bosibl bod yn glir a yw methadon a gofnodir fel prif sylwedd problematig yn cyfeirio at fethadon rhagnodedig neu anghyfreithlon

(d) Gweler [Atodiad C](#) am restr o gyffuriau sydd wedi'u cynnwys o dan *Opiadau Eraill*

(e) Gweler [Atodiad C](#) am restr o gyffuriau sydd wedi'u cynnwys o dan *Cyffuriau Eraill*

(f) Gweler [Atodiad C](#) am restr o gyffuriau sydd wedi'u cynnwys o dan *Symbylyddion Eraill*

Tabl 6.11: Cyfres amser atgyfeiriadau yn ôl prif sylwedd problematig (lle bo'n hysbys)

Prif Sylwedd Problematig	Blwyddyn Atgyfeirio									
	2015-16		2016-17		2017-18		2018-19		2019-20	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Alcohol	10,034	53.8	9,635	52.3	9,296	51.8	9,787	52.2	9,191	51.4
Heroin	3,583	19.2	3,471	18.8	3,230	18.0	3,207	17.1	3,304	18.5
Canabis (a)	2,059	11.0	2,021	11.0	1,952	10.9	1,933	10.3	1,914	10.7
Cocên	555	3.0	698	3.8	917	5.1	1,152	6.1	1,233	6.9
Methadon (b)	392	2.1	587	3.2	586	3.3	541	2.9	387	2.2
Amffetaminau	714	3.8	520	2.8	523	2.9	473	2.5	390	2.2
Crac Cocên	90	0.5	165	0.9	215	1.2	323	1.7	288	1.6
Bensodiasepinau	174	0.9	188	1.0	187	1.0	173	0.9	180	1.0
Ecstasi	14	0.1	25	0.1	34	0.2	64	0.3	30	0.2
Rhithbeiriau	21	0.1	21	0.1	44	0.2	48	0.3	55	0.3
Toddyddion	24	0.1	23	0.1	17	0.1	32	0.2	15	0.1
Cyffuriau sy'n Gwella Perfformiad a	8	0.0	9	0.0	5	0.0	6	0.0	3	0.0
Ōpiadau Eraill (c)	603	3.2	644	3.5	605	3.4	688	3.7	579	3.2
Cyffuriau Eraill (d)	358	1.9	419	2.3	327	1.8	313	1.7	326	1.8
Symbylyddion Eraill	6	0.0	2	0.0	6	0.0	4	0.0	1	0.0
Pob Atgyfeiriad	18,635	100	18,428	100	17,944	100	18,744	100	17,896	100

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg

GIG Cymru

(a) Efallai y bydd achosion lle mae'n bosibl bod cannabinoidau wedi'u cofnodi fel canabis.

(b) Nid yw'n bosibl bod yn glir a yw methadon a gofnodir fel prif sylwedd problematig yn cyfeirio at fethadon rhagnodedig neu anghyfreithlon.

(c) Gweler [Atodiad C](#) am restr o gyffuriau sydd wedi'u cynnwys o dan *Opiadau Eraill*

(d) Gweler [Atodiad C](#) am restr o gyffuriau sydd wedi'u cynnwys o dan *Cyffuriau Eraill*

(e) Gweler [Atodiad C](#) am restr o gyffuriau sydd wedi'u cynnwys o dan *Symbylyddion Eraill*

Tabl 6.12a: Atgyfeiriadau yn 2019-20 yn ôl oed a rhywedd: prif sylwedd problematig: Alcohol

Band oedran atgyfeirio	Gwryw		Benyw		Cyfanswm	
	Atgyfeiriad	Cyfradd Atgyfeirio (a)	Atgyfeiriad	Cyfradd Atgyfeirio (a)	Atgyfeiriad	Cyfradd Atgyfeirio (a)
10-14	17	18	33	37	50	28
15-19	87	97	106	128	193	112
20-29	761	357	396	200	1,157	282
30-39	1,626	866	802	422	2,428	643
40-49	1,499	830	943	502	2,442	662
50-59	1,206	566	764	340	1,970	450
60+	546	137	404	89	950	111
Pob Oed (b)	5,743	369	3,448	216	9,191	292
Canolrif oed (c)	42	.	44	.	43	.

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth; Ffynhonnell: Amcangyfrif canol blwyddyn SYG 2019

(b) Yn cynnwys 1 atgyfeiriad lle mae'r oed yn llai na 10.

(c) Y canolrif yw'r rhif canol mewn rhestr o rifau wedi'u trefnu, h.y. y gwerth lle mae'r un nifer o werthoedd islaw'r canolrif ag sydd uwchben. Eitem ddata'n amherthnasol

Tabl 6.12b: Atgyfeiriadau yn 2019-20 yn ôl oed a rhywedd: prif sylwedd problematig: Cyffuriau

Band oedran atgyfeirio	Gwryw		Benyw		Cyfanswm	
	Atgyfeiriad	Cyfradd Atgyfeirio (a)	Atgyfeiriad	Cyfradd Atgyfeirio (a)	Atgyfeiriad	Cyfradd Atgyfeirio (a)
10-14	134	145	67	76	201	111
15-19	521	583	220	265	741	430
20-29	1,630	766	626	317	2,256	549
30-39	2,013	1,073	930	489	2,943	779
40-49	1,444	799	465	247	1,909	518
50-59	425	199	133	59	558	127
60+	72	18	23	5	95	11
Pob Oed (b)	6,239	401	2,466	154	8,705	276
Canolrif oed (c)	34	.	32	.	33	.

Ffynhonnell: WNDSM, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

(a) Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth; Ffynhonnell: Amcangyfrif canol blwyddyn SYG 2019

(b) Yn cynnwys 2 atgyfeiriad lle mae'r oedran yn llai na 10.

(c) Y canolrif yw'r rhif canol mewn rhestr o rifau wedi'u trefnu, h.y. y gwerth lle mae'r un nifer o werthoedd islaw'r canolrif ag sydd uwchben.
. Eitem ddata'n amherthnasol


7 Asesiadau

Mae Ffigur 7.1 yn dangos statws pob cleient a aseswyd yn 2019-20 ar hyd llwybr triniaeth yr holl gleientiaid a aseswyd.

O'r 18,184 o gleientiaid a aseswyd, roedd 13,704 o achosion eisoes wedi'u cau erbyn dyddiad rhewi 21 Awst 2020, ac roedd 2,195 (11.7%) o'r rhain wedi'u cau heb gychwyn unrhyw fath o driniaeth.

Sylwer nad yw'r niferoedd yn ffigur 7.1 ond yn ymwneud â gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r cleientiaid hynny a aseswyd yn 2019-20, o gymharu â ffigur 6.1 a oedd yn seiliedig ar gleientiaid a gafodd atgyfeiriad yn 2019-20. Fel cymhariaeth, roedd nifer yr asesiadau a ddangosir yn ffigur 6.1 (17,627) yn ymwneud â chleientiaid a atgyfeiriwyd yn 2019-20 **ac** a aseswyd ar neu cyn 31 Mawrth 2020, tra bod y ffigur o 18,184 isod yn dangos yr holl gleientiaid a aseswyd yn 2019-20, gan gynnwys y rhai yr oedd eu dyddiad atgyfeirio cyn 1 Ebrill 2019. Yn yr un modd, ni ellir cymharu ffigurau sy'n ymwneud â "thriniaethau wedi'u dechrau" ac "achosion wedi'u cau", sy'n ymddangos yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, â'r ffigurau a ddangosir isod (15,630 ac 11,497 yn y drefn honno).

Ffigur 7.1: Statws presennol ar hyd llwybr triniaeth i'r rhai a aseswyd yn 2019-20 (ar ddyddiad rhewi 21 Awst 2020)



Asesiadau yn ôl Oedran, Rhywedd, Sylwedd a Tharddiad Ethnig

Tabl 7.1: Asesiadau yn ôl ardal breswyllo yn 2019-20 yn ôl prif sylwedd problematig

Bwrdd Cynllunio Ardal	Alcohol	Cyfradd Asesu (a)	Cyffuriau	Cyfradd Asesu (a)	Heb ei Nodi	Cyfradd Asesu (a)	Cyfanswm	Cyfradd Asesu (a)
Gogledd Cymru	1,755	251	1,526	218	16	2	3,297	471
Powys	271	205	336	254	0	0	607	458
Hywel Dda	1,353	349	1,256	324	7	2	2,616	675
Bae'r Gorllewin (b)	838	215	1,228	315	4	1	2,070	530
Caerdydd a'r Fro	1,654	330	987	197	5	1	2,646	53
Cwm Taf Morgannwg (c)	1,376	307	1,071	239	12	3	2,459	548
Gwent	1,735	265	1,797	275	1	0	3,533	394
